

Glanhau â thrydan

Darllenwch yr erthygl lawn yn rsc.li/4nUpQVX

Mae modd ehangu technoleg solar yn eang ac mae'n hawdd ei defnyddio mewn anialdiroedd. Ond mae golchi llwch yr anialwch sy'n gorchuddio arwyneb paneli solar yn defnyddio llawer o ddŵr, ac mae'n gallu cyfrif am hyd at 10% o gostau cynnal a chadw fferm solar gyffredin.

Mae gwyddonwyr wedi dod o hyd i ffordd newydd o lanhau celloedd solar gan ddefnyddio trydan. Mae gorchuddio'r celloedd solar ag electrod tryloyw a defnyddio trydan yn achosi i'r llwch gael ei wefru, sy'n codi'r gronynnau oddi ar yr arwyneb. Mae'r effaith hon yn annisgwyl oherwydd silica yw llwch yn bennaf, sy'n ynysydd. Mae anialdiroedd yn gallu bod yn llaith yn ystod y nos ac os yw'r lleithder yn uwch na 30%, mae'r gronynnau'n dargludo. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y tywod yn cael ei amgylchynu gan foleciwlau dŵr dargludol.



Sgrwbio neu frwsio? Cadw celloedd solar yn gweithio'n effeithlon

Glanhau â thrydan

Darllenwch yr erthygl lawn yn rsc.li/4nUpQVX

Mae modd ehangu technoleg solar yn eang ac mae'n hawdd ei defnyddio mewn anialdiroedd. Ond mae golchi llwch yr anialwch sy'n gorchuddio arwyneb paneli solar yn defnyddio llawer o ddŵr, ac mae'n gallu cyfrif am hyd at 10% o gostau cynnal a chadw fferm solar gyffredin.



Sgrwbio neu frwsio? Cadw celloedd solar yn gweithio'n effeithlon

Mae gwyddonwyr wedi dod o hyd i ffordd newydd o lanhau celloedd solar gan ddefnyddio trydan. Mae gorchuddio'r celloedd solar ag electrod tryloyw a defnyddio trydan yn achosi i'r llwch gael ei wefru, sy'n codi'r gronynnau oddi ar yr arwyneb. Mae'r effaith hon yn annisgwyl oherwydd silica yw llwch yn bennaf, sy'n ynysydd. Mae anialdiroedd yn gallu bod yn llaith yn ystod y nos ac os yw'r lleithder yn uwch na 30%, mae'r gronynnau'n dargludo. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y tywod yn cael ei amgylchynu gan foleciwlau dŵr dargludol.

1. Eglurwch yr heriau o olchi celloedd solar mewn anialdir.
2. Eglurwch pam mae silica (silicon deuocsid) yn ynysydd trydanol fel arfer.
3. Awgrymwch un broblem bosibl gyda'r dull newydd o lanhau.